**Pwyllgor / Committee :** Pwyllgor Gwella Academaidd – Pwyllgor Gwella Academaidd

16/05/2023

---

**Teitl / Title:** Diweddariad ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol

**Awdur / Author:** Mary Jacob, Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu, GG

**I 'w gyflwyno yn y cyfarfod gan / To be presented at the meeting by :** Mary Jacob

**Dyddiad / Date:** 26/04/2023

---

### 1. Rhowch restr o'r atodiadau os gwelwch yn dda / Please list attachments

Amherthnasol

### 2. Prif bwyntiau / Key points

1. Mae offer canfod deallusrwydd artiffisial Turnitin wedi'i alluogi, felly mae angen i ni roi gwybod i staff bod modd iddynt ei ddefnyddio ar gyfer rhybuddion (neu 'faneri coch') am ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial ond nid fel tystiolaeth bendant.
2. Rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu geiriad safonol ar gyfer blaenddalennau aseiniadau.
3. Y peryglon mwyaf i fyfyrwyr yw uniondeb academaidd, defnyddio gwybodaeth ffug, ac osgoi'r broses ddysgu, gan ddibynnu yn hytrach ar gynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial.
4. Ein cyngor gorau i staff yw bod yn glir gyda'ch myfyrwyr ynglŷn â'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol, a bod yn glir hefyd ynglŷn â'r rhesymau am bob asesiad. Pwysleisiwch y bydd cyflawni'r aseiniadau yn golygu y bydd y myfyrwyr yn dysgu.
5. Bydd llythrennedd deallusrwydd artiffisial yn dod yn fwyfwy pwysig i staff a myfyrwyr.
6. Mae'r rheoliad ynghylch Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi'i ddiweddaru ac mae geiriad newydd wedi ei rannu gan y Gofrestrfa.
7. Mae cymwysiadau deallusrwydd artiffisial sydd ar gael i'r cyhoedd yn datblygu'n gyflym. Mae mwy o offer deallusrwydd artiffisial na ChatGPT ar gael a rhagwelir bod mwy ar y ffordd. Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cael ei ymgorffori yn Office 365.
8. Mae ein deunyddiau ar gael ar **dudalen we deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol**.

### 3. Y camau sy'n ofynnol gan y pwyllgor/ Action required by committee:

Sicrhau bod adrannau pob Cyfadran yn cynnal trafodaethau gyda'u staff addysgu a bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu i'r myfyrwyr fel y bo'n briodol.

## Creu Gweithgor Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Mewn ymateb i drafodaeth yn yr PGA a mewnbwn gan Tim Woods, rydym wedi creu gweithgor er mwyn cydlynu ymateb y brifysgol. Y canlynol yw aelodau'r gweithgor:

- Steve Atherton, Swyddog yr Ysgol Addysg ac Uniondeb Academaidd
- Elizabeth Manners, UMAber
- Anna Cole, Cofrestrfa
- Anita Saycell, Ymgysylltu Academaidd, Gwasanaethau Gwybodaeth, Sarah Gwenlan bob yn ail
- Alex Taylor a Gil Greengros, Seicoleg
- Neil Mac Parthalain, Cyfrifiadureg
- Panna Karlinger, Ysgol Addysg
- Mary Jacob, Gwasanaethau Gwybodaeth UDDA, yn gweithredu fel Cadeirydd y Gweithgor

Mae'r grŵp wedi cydweithio ar ddogfen ganllaw ar gyfer staff, sydd ar gael ar wefan **Adnoddau Hyfforddiant UDDA**. Rydym yn ganol trafod diweddariadau i'r dudalen we a'r ddogfen ganllaw ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff a myfyrwyr. Gweler **blog yr UDDA** lle mae cyngor estynedig ar gyfer marcio ar y gweill. Rydym yn aros am gyfieithiad ac yn rhagweld y bydd y blogbost yn cael ei gyhoeddi erbyn cyfarfod PGA mis Mai.

Lledaenwyd y ddogfen ganllaw i staff gan y Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu adrannol a'r Deoniaid Cysylltiol. Gan gydnabod nad oes un dull sy'n gweithio i bawb, y nod yw i bob adran benderfynu ar ffyrdd cyson o siarad am ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol gyda'u myfyrwyr, ffyrdd sy'n briodol i'w disgyblaethau a'u cyd-destunau addysgu hwy eu hunain.

Mae UMAber wedi gofyn i fyfyrwyr gwblhau arolwg a byddant yn diweddaru **canllawiau i fyfyrwyr ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol** .

Yn y Bwrdd Academaidd, cyflwynodd Steve Atherton eiriad diwygiedig ar gyfer y **Rheoliad ynghylch Ymddygiad Academaidd Annerbyniol (YAA)** er mwyn rhoi sylw i ddefnydd anfoesegol myfyrwyr o ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer gwaith cwrs. Mae'r Gofrestrfa wedi rhannu'r geiriad newydd yn eang ac mae Mary wedi ychwanegu'r wybodaeth honno i'r **adran ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol** ar wefan yr UDDA.

## Golwg ar ChatGPT a Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Ym mis Rhagfyr 2022, cyflwynwyd adnodd newydd ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol (ysgrifennu gyda chymorth deallusrwydd artiffisial). Bu llawer iawn o drafod yn y cyfryngau ac ar draws y sector Addysg Uwch byd-eang ynglŷn â'i risgiau a'i oblygiadau i waith myfyrwyr.

Gall adnodd fel ChatGPT ysgrifennu cod cyfrifiadurol, traethodau, adroddiadau, cerddi, cynlluniau busnes, ymatebion i gwestiynau arholiad, a mwy mewn ychydig funudau. Mae barn yn y sector addysg uwch yn amrywio o iwtopaidd i ddystopaidd. Teimlad rhai yw y gallai olygu diwedd rhoi aseiniadau ysgrifenedig i fyfyrwyr. Mae eraill yn teimlo y gallai agor cyfleoedd newydd i hyrwyddo meddwl yn feirniadol a dysgu dwfn, gan symud o bosib i fodel 'anraddedig'. Mae rhai yn awyddus i

blismona myfyrwyr, gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i ddal y rhai sy'n twyllo, ond mae hyn yn annhebygol o lwyddo gan fod deallusrwydd artiffisial yn datblygu'n gyflym a bydd modd i fyfyrwyr osgoi cael eu dal. Awgryma rhai y dylai staff ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i roi adborth ar waith myfyrwyr. Mae eraill yn nodi bod risgiau difrifol i'r awgrym hwn gan fod adborth a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn annhebygol o annog meddwl gwreiddiol a'i fod yn tueddu at fod yn generig yn hytrach nag adborth manwl wedi'i seilio'n agos ar waith y myfyrwyr.

Mae goblygiadau deallusrwydd artiffisial fel ChatGPT ar asesu myfyrwyr yn sylweddol. Mae ein prifysgol eisoes wedi diweddaru'r rheoliad ynghylch YAA. Ymysg y nodau tymor hwy byddwn yn ailedrych ar gynllun asesiadau, fel y mae sefydliadau eraill yn ei wneud ar hyn o bryd.

## Pwyntiau allweddol

- **Sut mae'n gweithio -** Nid yw offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn 'ddeallus' mewn gwirionedd. Mae'n offeryn rhagfynegi testun soffistigedig sydd wedi'i hyfforddi gyda swm enfawr o ddata oddi ar y we a ffynonellau eraill.
- **Gall olygu osgoi dysgu –**
    - Gall defnyddio'r adnoddau hyn i ysgrifennu aseiniadau olygu bod myfyriwr yn osgoi dysgu. Mae'n bosib i fyfyriwr gyflwyno traethawd am farc da heb ddysgu unrhyw beth o gwbl.
    - Gall deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ysgrifennu cod cyfrifiadurol neu roi atebion da i gwestiynau arholiad meddygol, ond i ba raddau rydym ni'n hapus gydag ateb 'da' os nad yw'r myfyriwr yn gallu ysgrifennu'r cod neu ateb y cwestiwn ei hun?
    - Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eisoes yn cael effaith ar gwmnïau twyllo contract. Mae'r sefyllfa hon yn datblygu ar hyn o bryd ac nid ydym yn gwybod beth yw'r goblygiadau llawn eto.
- **Gall fod yn ffug neu'n gamarweiniol –**
    - Mae'r wybodaeth a gyflwynir fel 'ffeithiau' mewn testun a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn aml yn anghywir neu'n gamarweiniol.
    - Mae'r dyfyniadau a gynhyrchir yn edrych yn gredadwy ond yn aml maent yn ffug (e.e. mae'r cyfnodolyn yn bodoli ond nid yw'n cynnwys yr erthygl a ddyfynnir).
- **Nid oes modd i adnoddau canfod deallusrwydd artiffisial ddarparu tystiolaeth bendant** – Dim ond rhybuddion neu 'faneri coch' y dylid edrych arnynt yn agosach.
- **Nid yw gwahardd yn debygol o fod yn effeithiol -** Cafodd ChatGPT ei flocio ar gampws rhai prifysgolion ac mewn rhai ysgolion ar y dechrau, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn effeithiol, gan fod modd i fyfyrwyr ei ddefnyddio oddi ar y campws.
- **Mae'n debygol o ddod yn hollbresennol mewn dim o dro –**
    - Mae'r sylw mawr sydd wedi ei roi iddo yn y wasg yn golygu bod llawer o fyfyrwyr yn ymwybodol ohono eisoes.
    - Mae Microsoft yn ymgorffori'r dechnoleg hon yn ei gynnyrch, gan gynnwys chwiliad Bing ac Office 365.
    - Mae cwmnïau eraill fel Google yn brysio i ddatblygu eu hadnoddau eu hunain.

## Camau gweithredu ar gyfer Semester 2, Blwyddyn Academaidd 2022/23

1. **Canllawiau YAA wedi'u diweddaru –** Diwygio'r diffiniad o arfer academaidd annerbyniol i gynnwys y defnydd anfoesegol o ddeallusrwydd artiffisial mewn aseiniadau

2. **Canllawiau wedi'u cynllunio ar gyfer staff addysgu** i'w defnyddio ar y cyd â **briff yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)**:
3. **Ystyried beth rydym ni'n ei ddweud wrth fyfyrwyr am asesu**, e.e.
   a. Canolbwyntiwch ar y broses o ddysgu wrth wneud yr aseiniad
   b. Defnyddiwch ddeunyddiau'r cwrs o restr ddarllen Aspire ac adnoddau eraill o'r llyfrgell
   c. Ewch yn bellach na dim ond ailadrodd ffeithiau er mwyn dangos yr hyn rydych chi wedi ei ddysgu
   d. Byddwch yn benodol, osgowch ddatganiadau rhy gyffredinol
   e. Rhowch enghreifftiau penodol ac ati.
4. **Defnyddio strategaethau marcio i fynd ar ôl unrhyw arwyddion amheus**, e.e.
   a. Ewch ar ôl cyfeiriadau anghyfarwydd i weld a yw'r erthygl yn un sy'n bodoli ac yn briodol
   b. Chwiliwch am enghreifftiau pendant, nid cyffredinolrwydd amwys
   c. Gwiriwch wybodaeth ffeithiol

## Pethau i'w hystyried yn y tymor hir

1. Ailystyriwch bwrpas a chynllun asesu yn gyffredinol, gan gynnwys asesiad dilys lle bo hynny'n briodol.
2. Adolygwch a diweddarwch ddeilliannau dysgu fel eu bod yn fwy seiliedig ar dasgau ac yn llai seiliedig ar gynnwys fel y bo'n briodol.
3. Ailgynlluniwch rai asesiadau gan ymgorffori ysgrifennu prosesau, testun clytwaith, myfyrio.
4. Gofynnwch am elfen lafar i rai darnau o waith cwrs lle bo hynny'n briodol.
5. Defnyddiwch deallusrwydd artiffisial fel offeryn i ddysgu myfyrwyr ynglŷn â meddwl beirniadol yn ystod sesiynau yn y dosbarth. Gweler enghreifftiau o'r sector (e.e. gweminarau **Digitally-Enhanced Education**) i gael syniadau.
6. Ar gyfer disgyblaethau lle mae'n debygol y bydd deallusrwydd artiffisial yn rhan o'r gweithle, darparwch hyfforddiant yn y dosbarth ar sut i'w ddefnyddio'n dda. Bydd angen i hon fod yn ddisgyblaeth benodol iawn.
7. Bydd yn amhosibl atal y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn llwyr mewn aseiniadau. Mae angen i ni hyfforddi'r myfyrwyr a'r staff i'w ddefnyddio'n briodol.

## Rhestr o adnoddau dethol


1. Anthony, P. (11/1/2023), **AI and Higher Education: Is it time to re-think teaching and assessment?**, *Cyfarwyddiaeth Addysg, Prifysgol Kent*
2. Bates, T. (2/1/2023), **Playing with ChatGPT: now I'm scared (a little)**, *Online Learning and Distance Education Resources*
3. Bruff, D. (5/1/2023), **A Bigger, Badder Clippy: Enhancing Student Learning with AI Writing Tools**, *Agile Learning*: Blog Derek Bruff ar addysgu a dysgu
4. Compton, M. (10/1/2023), **Who's Afraid of ChatGPT?**, *Teachers going Gradeless* blog
5. D'Agostino, S. (12/1/2023), **ChatGPT Advice Academics Can Use Now**, *Inside Higher Education*
6. Forsyth, R. (5/1/2023), **ChatGPT : What should educators do next?**, *Assessment in Higher Education blog*
7. Jisc **National Centre for AI in Tertiary Education blog**

8. Kovanovic, V. (15/12/2022), **The dawn of AI has come, and its implications for education couldn't be more significant**, *The Conversation*
9. Maloy, RW, Trust, T., Butler, A. & Xu, C. (n.d.), 9. **Teacher and Student Guide to Analyzing AI Writing Tools (e.g., ChatGPT),** *Critical Media Literacy and Civic Learning*
10. Mills, Anna (2/2/2023), **What to do about AI text generators? Next steps for educators**, *National Academic Integrity Network, QQI*
11. National Academic Integrity Network (3/2/2023), **What to do about AI text generators? Next steps for educators** (Fideo 1 awr), *Quality and Qualifications Ireland (QQI)*
12. Phipps, Lawrie (27/3/2023 **),** **Means. Motive, Opportunity: A Composite Narrative about Academic Misconduct**, *Jisc National Centre for AI in Tertiary Education*
13. QAA (22/3/2023), **ChatGPT: To Ban or Not Ban?** (Fideo 1 awr), *QAAtube.* **Rydym yn argymell yn gryf gwylio eglurhad 8 munud Michael Webb** mewn Saesneg plaen ar sut mae adnodd canfod deallusrwydd artiffisial yn gweithio, yr hyn sydd o fewn ei allu a'r hyn sydd tu hwnt.
14. QAA (30/1/2023), **The rise of artificial intelligence software and potential risks for academic integrity: A QAA briefing paper for higher education providers**, QAA News
15. Stanley, G. (n.d.), **Approaches to Process Writing**, *British Council Teaching English*
16. UCL Arena Centre (4/1/2023), **Designing assessment for academic integrity** "Argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cynllunio addysg, cymorth i fyfyrwyr ac asesiadau yn oes asesiadau digidol a deallusrwydd artiffisial gyda'r nod o ddatblygu arfer academaidd da.", *Teaching Toolkits UCL Arena Centre*
17. Cyfres o weminarau, Digitally Enhanced Education gan Brifysgol Kent (16/3/2023), **Teaching with ChatGPT: Examples of Practice** (detholiad o fideos)
18. Webb, Michael (17/3/2023), **AI writing detectors – concepts and considerations**, *Jisc National Centre for AI in Tertiary Education*. Mae'n nodi: "**Ni all adnoddau sy'n canfod deallusrwydd artiffisial brofi'n bendant bod testun wedi'i ysgrifennu gan ddeallusrwydd artiffisial**."